“Dyma awr barnu’r byd hwn; yn awr y mae tywysog y byd hwn i gael ei fwrw allan. A minnau, os caf fy nyrchafu oddi ar y ddaear, fe dynnaf bawb ataf fy hun.”
Ioan 12:31-32

Dyma’r Arglwydd Iesu yn siarad yn ystod gŵyl y Pasg pan gafodd ei ddienyddio. Yn efengyl Ioan mae wedi sôn yn gyson am ei ‘awr’, sef y croeshoelio. Erbyn hyn, mae’r ‘awr’ wedi dod yn agos, mae’r amser bron â chyrraedd. Mae’n amlwg fod yr ‘awr’ yn ganolog i ddyfodiad Crist i’r byd, ac i’w holl weindogaeth a’i waith. Ac mae hynny’n ein hatgoffa ni pa mor ganolog yw croes Calfaria i’n Hefengyl ni.

Does dim Efengyl heb y groes, does dim posib sôn am Waredwr heb sôn am y groes, does dim ystyr na ffocws clir i gariad Duw heb i ni edrych ar y groes. Yn wir, roedd yr apostol Paul yn crynhoi yr holl Efengyl yn nhermau neges y groes: **“Oherwydd dewisais beidio â gwybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, ac yntau wedi ei groeshoelio”** (1 Cor. 2:2).

Ac mae’r Arglwydd Iesu yn sôn am ddau beth penodol fyddai’n digwydd o ganlyniad i’w ‘ddyrchafiad’ ar bren Golgotha. Byddai Tywysog y byd hwn yn cael ei fwrw allan, ond byddai pawb yn cael eu tynnu i mewn.

Y bwrw allan

Mae Iesu’n disgrifio’r ‘awr’ oedd o’i flaen fel ‘awr barnu’r byd hwn’. Y gair Groeg am ‘barnu’ yw “krisis”, sydd wedi dod i olygu ‘argyfwng’ yn Saesneg ac yn Gymraeg. Felly byddai’r byd mewn argyfwng, byddai popeth yn y fantol, fel petai. Y darlun a ddaeth i’m meddwl oedd darlun y dafol henffasiwn fel y dafol sy’n symbol o gyfiawnder yn y llysoedd barn. Y dafol sydd yn cael ei dal allan gan ddelw rhyddid America.

Yn y dafol mae tywysog y byd hwn ar un ochr a’r Gwaredwr ar yr ochr arall. Mae’r diafol yn cynrychioli twyll, pechod, drygioni a thywyllwch. Mae’r Arglwydd Iesu yn cynrychioli cyfiawnder Duw a gras Duw. Y cwestiwn tyngedfennol yw: pa un sydd drymaf? Pa un sydd drechaf? Os diafol a thywyllwch, mae’r cyfan ar ben, mae diwedd i bob gobaith i ddynolryw. Ond wrth gwrs, yr ydym yn gwybod mai gras a chyfiawnder a enillodd y dydd. Ffaith hanesyddol y bedd gwag yw sail ein gwybodaeth a sail ein gobaith a’n hyder.

O ganlyniad, gallwn gyhoeddi buddugoliaeth i Iesu Grist a buddugoliaeth i nerth yr Efengyl ym mywydau pobl. Er bod y diafol yn gryf, er bod y tywyllwch

yn drwm yn y byd weithiau, mae'r gelyn wedi cwrdd â'i feistr yn Iesu Grist.

"*Mae'r gelyn y gry', ond cryfach yw Duw*" (Cernyw).

Y tynnu mewn

Mae hyn yn ein harwain at yr ail bwynt: sef y caiff pobl eu tynnu i mewn at Iesu Grist. Mae maddeuant gan Dduw ar gael (beth bynnag ein pechod) – trwy Iesu Grist. Dyma welodd Williams, Pantycelyn wrth ofyn:

"Pa un drymaf yw fy mhechod,
Ai griddfannau Calfari?"

Mae cymod â Duw ar gael (pa mor bell bynnag yr aethom oddi wrtho) – trwy Grist. Mae'r goleuni yn drech na thywyllwch. Dyna sut allai Elfed ganu: *"mae dy ras yn drech na phechod".* Pa mor ddrwg bynnag aiff pethau yn y byd, ni fydd y drwg yn llwyr orchfygu byth. Ac yn y pendraw, daw popeth dan frenhiniaeth fendigedig yr Oen a laddwyd trosom.

Tynnu pawb

Wrth sôn am dynnu i mewn, mae'r Arglwydd yn cynnwys pawb. Os yw'r diafol yn cael ei wthio oddi ar yr orsedd y mae wedi ei chipio iddo fe'i hunan fel 'tywysog y byd hwn' Iesu Grist sydd biau'r orsedd.

Felly, mae Crist yn tynnu pawb o dan ei arglwyddiaeth Ef.

Pob Crediniwr

Mae hyn yn golygu pawb sydd yn dod i blygu a chydnabod arglwyddiaeth Crist yn eu bywydau yn y byd hwn. Pawb sydd yn ei gydnabod yn Waredwr ac yn Frenin. Mae'r 'pawb' yma yn cynnwys y Groegiaid a ddaeth at Iesu (12:20), y Samariaid (pen.4), y 'defaid eraill' (pen.10) ac mae'n golygu pobl o bob llwyth a gwlad ac iaith a chenedl.

Pawb ym mhob man erioed

Hefyd mae brenhiniaeth Crist yn mynd i ymestyn dros yr holl greadigaeth. Yn ei ailddyfodiad fe fyddwn yn gweld **"y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad"** (Phil. 2:11). Felly, fe ddaw'r holl greadigaeth yn un o dan yr Arglwydd – Crist Iesu.

Dyma sylfaen newyddion da yr Efengyl, felly. Concrwyd diafol a gorseddwyd Crist, ac ar ei ben bo'r goron.